# Atebion

2. Nwyddau = pethau. Gwasanaeth = rhywbeth rydych chi'n ei wneud dros rywun arall, e.e. hwfro, tacluso.

3. Manteision: hyblyg; gallwch gyfnewid nwyddau am wasanaethau neu fel arall; dim angen defnyddio arian.

   Prif anfantais: gallai rhywun fod yn ceisio eich twyllo.

7. Yr anfantais i'r wlad yw nad oes trethi'n cael eu talu os yw pobl yn cyfnewid nwyddau neu wasanaethau.

9. i) ymddiried; ii) hyblyg; iii) sbeisys; iv) twyllo; v) cyfreithlon; vi) trwsio.

10. Mae'n werth ei halen = Mae'n haeddu parch neu'n haeddu ei gyflog.

    Mae'r ymadrodd yn deillio o'r arfer o roi halen yn gyflog i filwyr Rhufeinig yn lle arian.

11. Gallech chi = you could. Mae 'gallech chi' yn sôn am sefyllfa sydd ddim yn bosibl ar y pryd ond mae'n sefyllfa a allai fod yn bosibl. Ond 'gallwch chi' = you can, felly mae hyn yn bosibl nawr.

    Gallwch chi brynu car = Rydych chi'n gallu prynu car = You can buy a car.

    Gallech chi brynu car = Byddech chi'n gallu prynu car (er enghraifft, tasai gennych chi arian) = You could buy a car.